Sut i gwyno am feddyg

Cymru

Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae’r llyfryn hwn ar gyfer cleifion yng Nghymru. Mae’n gweithdrefnau yr un fath ar draws y DU, ond mae sefydliadau gofal iechyd a sefydliadau cymorth yn amrywio.

Felly, rydym wedi creu llyfrynnau ar gyfer cleifion yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Os hoffech gael un o’r llyfrynnau hyn neu os hoffech gael llyfryn mewn ffurf neu iaith wahanol, ffoniwch 0161 923 6602.

Mae modd i chi weld y llyfrynnau mewn amrediad o ffurfiau ac ieithoedd hefyd ar ein gwefan, sef **www.gmc-uk.org/reportingdoctors**.

Sut i gwyno am feddyg

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) yn delio gyda'r cwynion mwyaf difrifol am feddygon. Cwynion yw'r rhain y byddant yn golygu bod angen cyfyngu ar gofrestriad meddyg neu eu hatal rhag gwneud gwaith meddygol er mwyn diogelu cleifion ac er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn meddygol.

Rydym yn un o blith nifer o sefydliadau sy'n gyfrifol am ystyried pryderon cleifion, a chan ddibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y byddai'n fwy priodol i chi fynegi eich pryderon i un o'r sefydliadau hyn yn y lle cyntaf.

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio'r hyn y dylech ei wneud os byddwch yn anfodlon gyda'r ffordd y mae meddyg wedi eich trin neu wedi gofalu amdanoch, ac mae'n cynnig rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym ni a sefydliadau eraill yn ei wneud.

Gyda phwy y dylwn i gysylltu os byddaf yn pryderu am feddyg?

Mae nifer fawr o sefydliadau yn gyfrifol am ymchwilio i bryderon a fynegir gan gleifion ac mae gwybod pwy y dylid siarad gyda nhw yn gallu bod yn ddryslyd. Bydd eich pryder yn cael ei drin yn y ffordd gyflymaf os byddwch yn cwyno i'r sefydliad cywir yn y lle cyntaf.

Os ydych yn dymuno cael ymddiheuriad, esboniad neu adolygiad o'ch triniaeth, dylech gysylltu â'r man lle y cawsoch eich gofal yn gyntaf.

Bydd modd datrys y rhan fwyaf o gwynion am feddygon yn lleol, ac yn fwy cyflym, gan gyflogwyr y meddyg. Bydd gan yr ysbyty GIG, y practis

Meddyg Teulu, yr ysbyty preifat neu'r clinig lle y cawsoch eich gofal eu gweithdrefnau cwyno eu hunain. Cysylltwch â nhw am y manylion.

Mae modd i chi weld manylion am weithdrefnau cwyno GIG Cymru ar wefan GIG sef **www.puttingthingsright.wales.nhs.uk**.

Os na fyddwch yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r bwrdd iechyd neu'r sefydliadau GIG dan sylw wedi ymchwilio i'ch cwyn, bydd gennych yr hawl i ofyn am adolygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sef **www.ombudsman-wales.org.uk**.

Mae'r sefydliadau eraill y byddant yn gallu eich helpu gyda'ch cwyn efallai yn cynnwys:

- eich Cyngor Iechyd Cymuned lleol, sy'n darparu gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth annibynnol am ddim – mae modd i chi gael y manylion cyswllt gan Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru trwy ffonio 08456 447 814 neu droi at **www.communityhealthcouncils.org.uk**
- Galw Iechyd Cymru – mae modd i chi eu ffonio ar 0845 4647 i gael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn gwyno yng Nghymru
- eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol – mae modd i chi ei ffonio ar 844 477 2020 neu droi at ei gwefan sef **www.adviceguide.org.uk/wales**.

Os bydd gennych chi gŵyn fwy difrifol sy'n effeithio ar y cwestiwn ynghylch a ddylid caniatáu i'r meddyg barhau i wneud gwaith meddygol yn eich barn chi, dylech gysylltu â ni.

Os na fyddwch yn siŵr pwy y dylech siarad gyda nhw, rydym wedi datblygu canllaw rhyngweithiol ar-lein ynghylch gwneud cwynion o'r enw Patients' help. Mae modd i chi weld hwn, ynghyd â'n holl ffurflenni a'n taflenni eraill ynghylch cwyno, trwy droi at **www.gmc-uk.org/concerns**.

Byddwn yn gwneud pob addasiad rhesymol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn sicrhau na fydd pobl anabl dan anfantais pan fyddant yn adrodd am bryder ynghylch meddyg. Dywedwch wrthym os bydd angen i ni wneud addasiadau rhesymol – ee darparu gwybodaeth mewn print mawr o ganlyniad i nam ar eich golwg.

Mae modd i chi ffonio ni hefyd er mwyn trafod eich pryderon, ar 0161 923 6602. Bydd pob galwad yn cael ei thrin mewn ffordd gyfrinachol a byddwn yn rhoi cyngor i chi am yr hyn i'w wneud.

Pa fathau o bethau y dylwn i gwyno i chi amdanynt?

Mae'r rhain yn enghreifftiau o'r mathau o achosion lle y bydd angen i ni weithredu efallai:

- camgymeriadau difrifol neu gamgymeriadau sy'n digwydd dro ar ôl tro wrth gyflawni ein gweithdrefnau meddygol neu wrth gynnig diagnosis, megis rhoi presgripsiwn am gyffuriau mewn ffordd beryglus
- methu archwilio claf mewn ffordd gywir neu ymateb mewn ffordd resymol i anghenion claf
- achosion difrifol o dor-cyfrinachedd mewn perthynas â chlaf
- pryderon difrifol ynghylch sgiliau Saesneg unigolyn
- camddefnyddio swydd broffesiynol (ee, perthynas rywiol neu emosiynol amhriodol gyda chlaf neu gyda rhywun sy'n agos iddynt)
- trais, ymosodiad rhywiol neu anweddustra

- gwahaniaethu anghyfreithlon
- twyll neu anonestrwydd
- unrhyw drosedd ddifrifol.

Sut ddylwn i riportio meddyg i CMC?

Y ffordd hawsaf a chyflymaf o fynegi pryder am feddyg yw trwy gyfrwng ein ffurflen gwyno ar-lein, trwy droi at **www.gmc-uk.org/patientshelp**. Bydd y ffurflen hon yn eich cynorthwyo i ddarparu'r holl wybodaeth i ni y byddwn ei hangen er mwyn ystyried eich pryder.

Mae modd i chi riportio meddyg i ni hefyd trwy:

- ysgrifennu atom, at Fitness to Practise, General Medical Council, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW
- llenwi a dychwelyd y ffurflen gwyno yng nghefn y llyfryn hwn.

Mae modd i chi weld gwybodaeth bellach, gan gynnwys enghraifft ddefnyddiol o gŵyn ar ffurf llythyr neu e-bost, trwy droi at ein gwefan sef **www.gmc-uk.org/concerns**.

Bydd angen i ni gael y wybodaeth ganlynol gennych:

- enw a chyfeiriad gwaith y meddyg
- esboniad o'ch pryderon – ynghyd â dyddiadau pan ddigwyddodd y digwyddiadau
- copïau o unrhyw ddogfennau ategol, megis copïau o'ch gohebiaeth gyda'r sefydliad neu'r corff GIG os ydych wedi cwyno'n lleol

- enwau a chyfeiriadau unrhyw un arall a oedd yn dyst i hyn neu yr oeddent yn gysylltiedig gyda'r digwyddiadau.

Sylwer na fydd modd i ni ymchwilio i'ch cwyn efallai os byddwch yn dymuno aros yn ddienw. Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau, ffoniwch ni ar 0161 923 6602.

Beth fydd CMC yn ei wneud gyda'm cwyn am feddyg?

Rydym yn adolygu'r holl gwynion yn ofalus er mwyn gweld a oes materion y mae angen i ni ymchwilio iddynt. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn penderfynu cynnal ymholiad amodol. Mae ymholiad amodol yn ymholiad cychwynnol a chyfyngedig ar ddechrau'r broses, sy'n ein helpu i benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad. Os byddwn yn penderfynu nad ni yw'r sefydliad cywir i ymchwilio i'r gŵyn, efallai y byddwn yn ei throsglwyddo i swyddog cyfrifol y meddyg sy'n monitro perfformiad, gan ddweud wrth y meddyg i'w throsglwyddo i'r corff cwynion lleol.

Os byddwn yn penderfynu ymchwilio i'ch cwyn, bydd angen i ni ei dangos i'r meddyg. Byddwn yn gofyn am eich caniatâd i wneud hyn, ond os byddwch yn gwrthod, bydd modd i ni wneud hynny heb sicrhau eich caniatâd mewn rhai sefyllfaoedd. Fel arfer, ni fyddwn yn ymchwilio i gwynion am feddygon pan fydd y digwyddiadau wedi digwydd dros bum mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, byddwn yn dangos eich cwyn i'r meddyg o hyd os byddwch yn rhoi eich caniatâd i ni wneud hynny.

Ar ôl i ni gael sylwadau'r meddyg, byddwn yn rhoi cyfle i chi ymateb. Yn ogystal, byddwn yn anfon taflen ffeithiau atoch o'r enw Ymchwilio i bryderon, sy'n rhoi esboniad mwy manwl o'r gweithdrefnau.

Ar ôl i ni gasglu'r wybodaeth y byddwn ei hangen, ystyrir yr achos gan ddau archwiliwr achos (un meddygol ac un anfeddygol), y maent yn staff uwch

CMC. Byddant yn ystyried a yw'r pryderon yn ddigon difrifol er mwyn cyfeirio'r achos at wrandawiad gyda Gwasanaeth Tribiwnlys yr Ymarferwyr Meddygol (MPTS). Os byddant, bydd tribiwnlys diduedd yn penderfynu yn y gwrandawiad a yw'r meddyg yn addas i wneud gwaith meddygol neu beidio.

Mae modd i chi gael gwybod mwy am rôl MPTS trwy droi at **www.mpts-uk.org**.

Beth fydd modd i CMC ei wneud?

Os byddwn yn nodi pryderon am y meddyg sy'n golygu bod angen i ni weithredu, gallwn:

- roi rhybudd i'r meddyg
- cytuno ar ymgymeriadau – er enghraifft, bydd y meddyg yn cytuno ailhyfforddi neu weithio dan oruchwyliaeth
- cyfeirio'r meddyg at MPTS am wrandawiad tribiwnlys ymarferwyr meddygol. Bydd modd i dribiwnlys MPTS benderfynu:
    - gosod amodau ar gofrestriad y meddyg, fel bod modd iddynt, er enghraifft, wneud gwaith meddygol dan oruchwyliaeth yn unig, neu fel eu bod yn cael eu cyfyngu i feysydd penodol o ran gwaith meddygol
    - tynnu enw'r meddyg o'r gofrestr am gyfnod – fel na fydd modd iddynt wneud gwaith meddygol yn ystod y cyfnod atal dros dro
    - tynnu enw'r meddyg oddi ar y gofrestr fel na fydd modd iddynt wneud gwaith meddygol o gwbl.

Beth na fydd modd i CMC ei wneud?

Ni allwn:

- ddelio gyda phryderon neu gwynion am nyrsys, fferyllwyr, deintyddion, optegwyr, rheolwyr ysbyty neu reolwyr practis neu staff gweinyddol, neu unrhyw un nad ydynt yn feddyg cofrestredig – bydd y rhain yn cael eu trin gan reolyddion eraill (trowch at **www.professionalstandards.org.uk** am eu manylion)
- rhoi esboniad manwl i chi am yr hyn a ddigwyddodd i chi – dim ond y meddyg neu'r sefydliad gofal iechyd fydd yn gallu rhoi hyn i chi
- mynnu bod meddyg yn darparu'r driniaeth yr ydych yn ei dymuno i chi
- eich helpu gyda chais am iawndal
- dirwyo meddyg
- mynnu bod meddyg yn ymddiheuro i chi.

Faint o amser y bydd yn ei gymryd i CMC ystyried fy nghwyn?

Rydym yn gwerthfawrogi y gallai'r broses o wneud cwyn beri straen, felly byddwn yn ceisio ystyried eich cwyn cyn gynted ag y gallwn. Po fwyaf o wybodaeth berthnasol y byddwch yn ei darparu, y cyflymaf y bydd modd i ni ystyried eich cwyn. Os byddwn yn penderfynu ymchwilio i'ch cwyn, byddwn yn rhoi syniad i chi ynghylch pa mor hir y bydd ein hymholiadau yn cymryd.a.

Beth os na fyddaf yn fodlon gyda'r ffordd y mae CMC wedi delio gyda fy nghwyn?

Byddwn yn eich hysbysu o unrhyw gamau y byddwn yn eu cymryd, gan roi esboniad clir i chi am ein penderfyniadau. Os na fyddwch yn fodlon gyda'r ffordd y byddwn wedi delio gyda'ch cwyn, a fyddech gystal â thrafod y broblem gyda'r unigolyn a wnaeth ddelio gyda'ch cwyn. Bydd modd i chi gysylltu gyda'u rheolwr os byddwch yn anfodlon o hyd, neu anfon e-bost at **feedback@gmc-uk.org**.

Help arall gan CMC

Pan fo modd, byddem yn dymuno i chi gael gofal nad yw'n golygu bod angen i chi gwyno. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr amser y byddwch yn ei dreulio gyda'ch meddyg, mae'n canllaw *Yr hyn i'w ddisgwyl gan eich meddyg: canllaw i gleifion* yn esbonio'r ymddygiad a safon y gofal proffesiynol y gallwch ei ddisgwyl. Seiliwyd y canllaw ar y safonau y byddwn yn eu gosod ar gyfer meddygon yn *Arfer meddygol da* ac mae'n esbonio sut y mae modd i gleifion helpu i feithrin partneriaeth effeithiol gyda'u meddyg. Mae'n tanseilio pwysigrwydd urddas a pharch ar y ddwy ochr rhwng cleifion a meddygon, ac mae'n esbonio bod angen i bob meddyg fod yn onest ac yn agored os bydd pethau yn mynd o'i le. Darllenwch y canllaw hwn trwy droi at **www.gmc-uk.org/patientsguide**.

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**
Gwefan: **www.gmc-uk.org**
Ffôn: **0161 923 6602**

Prif swyddfa: General Medical Council, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW
Swyddfa Cymru: Cyngor Meddygol Cyffredinol, 2 Pwynt Caspian, Ffordd Caspian, Caerdydd CF10 4DQ

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn iaith neu ffurf arall, ffoniwch ni ar 0161 923 6602, neu anfonwch e-bost atom, at **publications@gmc-uk.org**.

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2013
© 2013 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae modd atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim ac mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750)

Cod: GMC/HCAD_WLS_W/0216

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Ffurflen gwyno

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Diben y ffurflen hon yw'ch galluogi i wneud cwyn am feddyg i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) mewn ffordd hollol gyfrinachol. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon er mwyn gwneud eich cwyn eich hun am feddyg neu er mwyn cwyno ar ran rhywun arall.

Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon, ond os byddwch, bydd yn ein helpu ni i ystyried eich cwyn yn gyflym. Neu, mae modd i chi fynegi cwyn trwy ddefnyddio ein ffurflen gwyno ar-lein y mae ar gael yn **www.gmc-uk.org/patientshelp**.

Os bydd angen help arnoch, darllenwch ein llyfryn *Sut i gwyno am feddyg* trwy droi at **www.gmc-uk.org/concernspublications**, ffoniwch ni ar 0161 923 6602 neu trowch at **www.gmc-uk.org/concerns**.

A fyddech gystal â llenwi'r ffurflen gan ddefnyddio inc glas neu ddu a PHRIFLYTHRENNAU, gan ddarparu cymaint o fanylion ag y bo modd.

Y wybodaeth y bydd angen i chi ei chael er mwyn llenwi'r ffurflen hon

Cyn llenwi'r ffurflen hon, efallai y bydd o ddefnydd i chi gasglu'r wybodaeth ganlynol.

- **Enw'r meddyg** yr ydych yn dymuno gwneud cwyn amdanynt.
- **Cyfeirnod CMC** saith digid unigryw y meddyg, y byddwn yn ei ddefnyddio er mwyn eu hadnabod. Mae gan bob meddyg y maent wedi cofrestru i weithio yn y DU rif, a bydd hwn yn ein helpu i brosesu'ch cwyn yn fwy cyflym.

  Mae modd i chi gael gafael ar gyfeirnod CMC meddyg trwy:

  - ofyn i'ch meddyg
  - chwilio ein cofrestr feddygol ar-lein trwy droi at **www.gmc-uk.org/LRMP**
  - archwilio gwefannau gofal iechyd eraill – mae modd i chi weld manylion y rhain ar ein gwefan, sef **www.gmc-uk.org/identifyadr**.
- Y **dyddiad** (neu'r dyddiad bras) pan ddigwyddodd y digwyddiad yr ydych yn dymuno adrodd amdano.
- **Manylion y digwyddiad** – er enghraifft, ble ddigwyddodd y digwyddiad? Beth mae'r meddyg wedi ei wneud o'i le yn eich barn chi? Beth ddigwyddodd i chi neu'r claf o ganlyniad i weithredoedd y meddyg?
- Os ydych eisoes wedi cwyno i sefydliad arall, megis eich ysbyty neu'ch meddygfa leol, bydd yn ein helpu ni os bydd modd i chi ddarparu **manylion ynghylch pwy y gwnaethoch gwyno iddynt a beth oedd y canlyniad**.

Os ydych wedi cwyno i CMC o'r blaen am y mater hwn

A fyddech gystal â nodi'ch pryderon yn ysgrifenedig, gan ddyfynnu'r cyfeirnod y gwnaethom ei roi i chi yn flaenorol, a'u hanfon atom mewn neges e-bost at practise@gmc-uk.org neu ysgrifennu atom, at Cyngor Meddygol Cyffredinol, Fitness to Practise Directorate, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW.

Ni ddylech gyflwyno cwyn newydd yn yr achos hwn.

Os na fydd modd i chi ddod o hyd i'r cyfeirnod neu os na fyddwch yn ei gofio, nodwch enw'r meddyg a/neu'r dyddiad pan wnaethoch chi'r gŵyn yn y lle cyntaf.

Eich manylion

Teitl (Mr, Mrs, Ms, ac ati) **Enw llawn**

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn y cartref

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

Dyddiad geni dd mm bbbb

Rhyw G/B

Eich cyfeirnod CMC, os ydych yn feddyg

Addasiadau rhesymol

Rydym wedi ymrwymo i'r cam o wneud addasiadau rhesymol, yn unol â *Deddf Cydraddoldeb 2010*, er mwyn helpu pobl anabl i gwyno am feddyg. A fyddech gystal â dweud wrthym os bydd angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch, megis cael y ffurflen hon neu wybodaeth am y weithdrefn gwyno mewn ffurf amgen (ee print mawr neu fersiwn sain).

Pwy ydych chi

Er enghraifft: y claf, rhiant y claf, gwarcheidwad y claf, cymar neu bartner y claf, perthynas y claf, cynrychiolydd cyfreithiol y claf, ffrind y claf, aelod o'r cyhoedd sy'n gofidio am y mater, gweithiwr iechyd proffesiynol arall neu feddyg sy'n gofidio am y mater.

Fi yw

Os **nad** chi yw'r claf, a fyddech gystal â darparu rhagor o wybodaeth i ni amdanynt.

Teitl (Mr, Mrs, Ms, ac ati) **Enw llawn y claf**

Dyddiad geni dd mm bbbb

Rhyw G/B

Manylion y meddyg

A fyddech gystal â nodi manylion y meddyg(on) yr ydych yn cwyno amdanynt.

Manylion y meddyg cyntaf

Enw llawn y meddyg

Enw'r sefydliad

Adran

Cyfeiriad y sefydliad

Cod post

A fyddech gystal â darparu unrhyw wybodaeth arall y gallai ein helpu ni i nodi'r meddyg yn eich barn chi, megis y math o feddyg ydynt neu arbenigedd y meddyg.

Rhyw G/B

Cyfeirnod CMC

Manylion yr ail feddyg

Enw llawn y meddyg

Enw'r sefydliad

Adran

Cyfeiriad y sefydliad

Cod post

A fyddech gystal â darparu unrhyw wybodaeth arall y gallai ein helpu ni i nodi'r meddyg yn eich barn chi, megis y math o feddyg ydynt neu arbenigedd y meddyg.

Rhyw G/B

Cyfeirnod CMC

Os bydd mwy na dau feddyg yn gysylltiedig, a fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân a'i gosod wrth y ffurflen hon. Ticiwch yma os ydych wedi parhau ar dudalen ar wahân.

Manylion y digwyddiad

Dyddiad y digwyddiad

Pryd ddigwyddodd y digwyddiad? (A fyddech gystal â rhoi amcangyfrif os na fyddwch yn siŵr). Os bu cyfres o ddigwyddiadau, a fyddech gystal â nodi'r dyddiad mwyaf diweddar. Mae modd i chi ddarparu dyddiadau perthnasol eraill yn adran *Crynodeb o'ch cwyn isod*.

dd | mm | bbbb

Fel arfer, ni fydd modd i ni ymchwilio i bryderon am ddigwyddiadau a wnaeth ddigwydd dros **bum mlynedd** yn ôl. Os ddigwyddodd y digwyddiad dros bum mlynedd yn ôl, a fyddech gystal ag esbonio pam na wnaethoch chi godi'r mater hwn gyda ni yn flaenorol. Bydd angen i ni ddeall hyn cyn i ni gymryd unrhyw gamau pellach.

Lleoliad(au) y digwyddiad

A fyddech gystal â darparu manylion ynghylch ble ddigwyddodd y digwyddiad(au). Er enghraifft, os ddigwyddodd y digwyddiad pan oeddech yn cael triniaeth feddygol, gallai hyn fod yn yr ysbyty neu ym meddygfa'r meddyg.

Eich cwyn

A fyddech gystal â dweud wrthym am eich cwyn.

- Nodwch yr hyn y mae'r meddyg wedi ei wneud o'i le yn eich barn chi, yr hyn a ddigwyddodd i chi neu'r claf o ganlyniad i weithredoedd y meddyg, a phryd a ble y digwyddodd hyn.
- Os wnaeth y digwyddiad ddigwydd ar draws sawl dyddiad, dylech gynnwys yr holl ddyddiadau.
- Os ydych yn gwneud cwyn am fwy nag un meddyg, dylech nodi mewn ffordd eglur yr hyn y mae pob meddyg wedi ei wneud o'i le yn eich barn chi.

A fyddech gystal â darparu cymaint o wybodaeth ag y bo modd am eich pryderon oherwydd y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn cynnal asesiad cychwynnol o'ch cwyn.

Parhad ❯

Parhad ❯

Os bydd angen, a fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân a'i gosod wrth y ffurflen hon. Ticiwch yma os ydych wedi parhau ar dudalen ar wahân. ☐

Gwybodaeth am dystion

Os oedd unrhyw un yn dyst i'r digwyddiad, nodwch eu henw(au) ac esboniwch yr hyn y gallent fod wedi ei weld neu ei glywed yn eich barn chi.

Dogfennaeth atodol

Os oes gennych chi unrhyw ddogfennau sy'n addas i'ch cwyn yn eich barn chi, a fyddech gystal â chynnwys copïau a'u rhestru yma. Os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny, byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol y byddwch yn eu hanfon ar ôl i ni eu copïo.

Sylwer: Yn unol â'n canllawiau ynghylch diogelwch gwybodaeth, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn dychwelyd unrhyw gyfryngau digidol – megis disgiau DVD, cryno ddisgiau a theclynnau USB – y byddwch yn eu hanfon atom. Mae modd i ni anfon copi o'r wybodaeth atoch gan ddefnyddio ein system ddiogel er mwyn trosglwyddo ffeiliau. Ond er mwyn osgoi'r perygl y caiff data ei ddatgelu mewn ffordd anghywir, ni fyddwn yn dychwelyd y wybodaeth hon yn y post yn gyffredinol.

Gwybodaeth bellach am eich cwyn

Os ydych eisoes wedi cwyno am y mater hwn i feddygfa'ch meddyg neu i'r ysbyty, yr ymddiriedolaeth leol neu gorff rheoleiddio arall, nodwch y manylion isod. Os na, ewch ymlaen i'r adran *Caniatâd a datganiad*.

Manylion y sefydliad cyntaf

Enw'r cyswllt

Cyfeiriad e-bost y cyswllt

Enw'r sefydliad

Adran

Cyfeiriad y sefydliad

Cod post

A fyddech gystal â darparu manylion byr am eu hymateb i'ch pryder, gan gynnwys unrhyw adborth llafar a roddwyd i chi efallai.

Manylion yr ail sefydliad

Enw'r cyswllt

Cyfeiriad e-bost y cyswllt

Enw'r sefydliad

Adran

Cyfeiriad y sefydliad

Cod post

A fyddech gystal â darparu manylion byr am eu hymateb i'ch pryder, gan gynnwys unrhyw adborth llafar a roddwyd i chi efallai.

Os ydych wedi cwyno am y mater hwn i fwy na dau sefydliad, a fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân a'i gosod wrth y ffurflen hon. Ticiwch yma os ydych wedi parhau ar dudalen ar wahân. ☐

Dogfennaeth atodol

Os oes gennych chi unrhyw ddogfennau, megis copi o'r llythyr cwyno neu'r ymateb a gawsoch gan y darparwyr gofal iechyd, sy'n berthnasol i'ch cwyn yn eich barn chi, a fyddech gystal â chynnwys copïau a'u rhestru yma. Os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny, byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol y byddwch yn eu hanfon ar ôl i ni eu copïo.

Caniatâd a datganiad

Hoffem gael eich caniatâd i ddweud wrth y meddyg(on) dan sylw, eu cyflogwyr ac unigolion neu sefydliadau perthnasol eraill am eich cwyn yn ôl yr angen, er mwyn symud ymchwiliad yn ei flaen. Mewn rhai amgylchiadau, mae modd i ni rannu eich cwyn heb sicrhau'ch caniatâd, ond byddai'n well gennym pe baech yn cytuno i hyn. Pan na fydd hyn yn digwydd, bydd angen i chi fod yn ymwybodol, os na fyddwch yn rhoi eich caniatâd, **efallai na fydd modd i ni gymryd unrhyw gamau pellach gyda'ch cwyn**. Ticiwch y blwch isod er mwyn rhoi eich caniatâd i ni rannu eich cwyn er mwyn delio gyda'ch pryderon neu gynorthwyo sefydliad neu unigolyn arall i wneud hynny.

Caniatâd a datganiadau

Rydw i'n cytuno y gall CMC ddweud wrth y meddyg(on) dan sylw, eu swyddog cyfrifol/unigolyn addas, eu cyflogwyr ac unrhyw unigolion neu sefydliadau perthnasol eraill am fy nghwyn, a rhannu unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennyf mewn perthynas â hi, er mwyn gwneud ymholiadau a/neu gynnal ymchwiliad mewn perthynas â'r mater. Rydw i'n cytuno hefyd bod modd i CMC drosglwyddo'r gŵyn i gorff neu unigolyn priodol arall (gan gynnwys swyddog cyfrifol/unigolyn addas y meddyg) os nad yw hwn yn fater i CMC (neu'n fater i CMC yn unig).

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Rydw i'n cytuno cydweithredu gydag ymchwiliad CMC, gan gynnwys, er enghraifft, darparu datganiad.

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Rydw i'n datgan bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Llofnod **Dyddiad**

dd mm bbbb

Os mai chi yw'r claf, a fyddech gystal â llenwi'r canlynol hefyd

Rydw i'n cytuno bod modd i'r meddyg(on) dan sylw, eu cyflogwyr neu unigolion neu sefydliadau perthnasol eraill roi unrhyw wybodaeth i CMC amdanaf i y bydd angen i CMC ei chael er mwyn ystyried fy nghwyn, gan gynnwys fy nghofnodion meddygol.

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Llofnod **Dyddiad**

dd mm bbbb

Caniatâd ar gyfer cofnodion meddygol

Er mwyn ystyried eich cwyn, efallai y bydd angen i ni gael copïau o gofnodion meddygol y claf. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni gael caniatâd y claf, eu gwarcheidwad neu eu cynrychiolydd cyfreithiol. Bydd angen i chi ddweud enw(enwau) yr ysbyty neu'r feddygfa sy'n cadw'r cofnodion sy'n ymwneud â'r mater sy'n destun y gŵyn hefyd. Efallai y bydd angen i ni rannu'r cofnodion hyn gyda'r meddyg fel rhan o'n hymchwiliadau.

Efallai na fydd angen i ni gael copïau o'r cofnodion meddygol, ond os bydd angen i ni gael copïau, bydd yn arbed amser os byddwch yn rhoi eich caniatâd ar yr adeg hon.

Enw'r sefydliad lle y mae'r cofnodion yn cael eu cadw

Cyfeiriad y sefydliad (os yw'n hysbys)

Cod post (os yw'n hysbys)

Os oes cofnodion meddygol perthnasol yn cael eu cadw mewn mwy nag un lleoliad, dylech barhau ar dudalen ar wahân

Os mai chi yw'r claf

Rydw i'n rhoi fy nghaniatâd i CMC gael copïau o'm cofnodion meddygol am y cyfnod y mae CMC o'r farn ei fod yn berthnasol i'r gŵyn hon.

Eich enw

Llofnod

Dyddiad dd mm bbbb

Dyddiad geni dd mm bbbb

Os mai chi yw perthynas agosaf neu gynrychiolydd cyfreithiol claf sydd dan 16 oed neu glaf sydd wedi marw

Eich enw

Eich perthynas gyda'r claf

Rydw i'n rhoi fy nghaniatâd i CMC gael copïau o gofnodion meddygol y claf am y cyfnod y mae CMC o'r farn ei bod yn berthnasol i'r gŵyn hon. Rydw i'n cadarnhau fy mod yn meddu ar yr awdurdod cyfreithiol i roi'r caniatâd hwn.

Enw'r claf

Dyddiad geni y claf dd mm bbbb

Dyddiad y bu'r claf farw (pan fo hynny'n berthnasol) dd mm bbbb

Eich llofnod

Dyddiad dd mm yyyy

Rhestr gyfeirio

Dylech sicrhau eich bod wedi:

- gwneud yn siŵr bod yr holl dudalennau yn y ffurflen hon wedi cael eu llenwi a bod tudalennau ychwanegol wedi cael eu cynnwys
- rhoi eich enw i ni, a rhif ffôn er mwyn cysylltu â chi yn ystod y dydd os oes modd
- rhoi cymaint o wybodaeth ag y bo modd i ni am y meddyg(on) dan sylw
- disgrifio eich cwyn mewn ffordd mor lawn ag y bo modd
- cynnwys unrhyw lythyrau am eich cwyn yr ydych wedi eu hanfon at neu eu cael gan unrhyw sefydliad arall yr ydych wedi cwyno iddynt
- llenwi'r adran *Caniatâd a datganiad*.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, a fyddech gystal â'i hanfon at:
Fitness to Practise, General Medical Council, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW.

Byddwn yn adolygu eich cwyn ac yn dweud wrthych cyn pen pythefnos a fyddwn yn cynnal ymchwiliadau pellach iddi neu beidio. Os na fydd modd i ni ei hymchwilio, byddwn yn esbonio pam.

Diolch am neilltuo'r amser i lenwi'r ffurflen hon.

Mae CMC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089278) ac yn yr Alban (SC037750)

Cod: GMC/PCF-W/0516